# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 11EG TACHWEDD, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 1 Tachwedd 2024)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alan Jones Evans | Annwen Hughes |
| Gareth Tudor Jones | Linda Ann Jones |
| Edgar Wyn Owen | Gwynfor Owen |
| Arwyn Herald Roberts | Huw Rowlands |
| Elfed Williams | Sedd Wag |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gareth Williams | Angela Russell |
| Anwen J. Davies | John Brynmor Hughes |
| Hefin Underwood | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor.

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10fed o Fehefin 2024 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL — 6 - 21

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 07-05-24
b) 10-06-24
c) 04-09-24
d) 08-10-24

## 6. DIRPRWYO HAWLIAU I BENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU TACSI — 22 - 30

I gymeradwyo diwygio'r drefn dirprwyo penderfyniadau i'r Is Bwyllgor yn unol a'r drefn a argymhellir yn yr adroddiad .

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**10 Mehefin 2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Angela Russell, Gareth Williams a Hefin Underwood

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2024/25**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2024/25**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2024/25**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2024/25**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts, yn eitem 7 ar y rhaglen fod ganddo fuddiant oherwydd cysylltiad agos â chwmnïau tacsis lleol. Yn dilyn arweiniad gan y Rheolwr Trwyddedu nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu gan mai diweddariad cyffredinol oedd yma am y polisi. Nid oedd rhaid iddo adael y cyfarfod.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 4ydd o Fawrth 2024 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 20fed o Fawrth 2024 a'r 9fed o Ebrill 2024

**8. DIWEDDARIAD AR Y POLISI AR GYFER HURIO PREIFAT A CHERBYDAU HACNI**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu ddiweddariad ar lafar ar y polisi hurio preifat a cherbydau hacni. Amlygodd bod y polisi cyfredol yn dameidiog ac yn cynnwys nifer o bolisïau ac felly'r bwriad yw creu un ddogfen. Ategodd nad oedd cylch penodol ar gyfer adolygu'r polisi, ond bod rhai agweddau angen eu diweddaru. Nododd bod oediad yn y gwaith oherwydd bod disgwyl i Lywodraeth Cymru adolygu deddfwriaeth yn ymwneud a chysoni rheoliadau'r diwydiant tacsi. Er hynny, derbyniwyd datganiad gan Lywodraeth Cymru yn nodi na fyddai'r ddeddfwriaeth yn dod i rym yn fuan ac felly rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Awdurdodau Lleol gysoni eu polisïau eu hunain.

O ran amserlen, nodwyd, unwaith bydd y polisi wedi ei adolygu, bydd angen cynnal ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a chyflwyno'r polisi drafft i'r Pwyllgor i amlygu unrhyw addasiadau. Amlygwyd er bod rhai agweddau megis ystyried oedran cerbyd tacsi, hyfforddiant diogelu, cyflwyno DBS ffres bob tair blynedd a bod gyrwyr dros 65oed yn cael prawf meddygol bob blwyddyn eisoes mewn lle ac yn cael eu gweithredu, bod angen eu cynnwys yn y polisi. O ganlyniad, ni fydd yr ychwanegiadau i'r polisi yn newydd i'r diwydiant.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- bod angen ceisio annog cael gwell darpariaeth yng nghefn gwald
- bod y ddogfen 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' wedi ei chyhoeddi yn 2014, ac felly wedi dyddio ac angen ei haddasu

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Rheolwr Trwyddedu mai anodd yw dylanwadu ar y nifer i ddod i mewn i'r diwydiant yn enwedig gyda rhai yn cael eu denu fwyaf at waith trefol oherwydd nad oedd cysondeb gwaith yng nghefn gwald. Er hynny, yr Uned Trwyddedu yn ceisio annog gwell darpariaeth yng nghefn gwlad.

Derbyniwyd y sylw bod y ddogfen meini prawf wedi dyddio ac yn cynnwys rhai agweddau hŷn fydd yn cael eu hadolygu. Er hynny, nodwyd, er bod y ddogfen wedi ei chyhoeddi yn 2014, bod y cynnwys yn parhau i basio'r prawf. Un elfen fydd angen ei gynnwys yn y ddogfen fydd pwyntiau gyrru.

Mewn ymateb i gwestiwn os yw gyrwyr bysus yn gorfod cael eu hasesu drwy'r un meini prawf, nodwyd bod ceisiadau gyrwyr bysus yn cael eu caniatáu drwy gyfundrefn wahanol (Comisiynydd Traffig Cymru). Ategwyd bod y polisi trwyddedu yn benodol ar gyfer cerbyd 8 neu lai o seddi.

Diolchwyd am y diweddariad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:25

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 07-05-24**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** **Elfed Williams (Cadeirydd), Gareth Jones ac Angela Russell**

**Swyddogion:** **Sïon Huws ( Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**Eraill a wahoddwyd:**

**Eitem 5:**
**Ymgeisydd - Mr A a'i bartner**

**Eitem 6:**
**Ymgeisydd – Mr B**

**Eitem 7:**
**Ymgeisydd – Mr C:**

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd

- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y pwyntiau ar ei drwydded yrru, y gollfarn am drosedd gyrru difrifol a'i amgylchiadau personol. Amlygodd bod y gollfarn am yrru difrifol wedi digwydd yn Ionawr 2016 ac nid Mehefin 2015 fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â dyddiad arwyddo'r cais (27-02-2005) nododd yr ymgeisydd mai camgymeriad oedd hwn a'i fod wedi cymysgu'r dyddiad gyda phen-blwydd aelod o'r teulu.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Ebrill 2023 derbyniodd yr ymgeisydd chwe phwynt cosb ar ei drwydded am beidio â datgelu gwybodaeth am bwy oedd gyrrwr y car ac ati

Yn Mai 2023, derbyniodd yr ymgeisydd dri phwynt cosb ychwanegol ar ei drwydded am Dorri Cyfyngiad Cyflymder ar Ffordd Gyhoeddus

Yn Ionawr 2016 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am drosedd o Achosi Digwyddiad Peryglus ar Ffordd neu dros Ffordd, yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988. Derbyniodd ddirwy o £155, Costau o £85 a Chostau Ychwanegol o £20

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.3 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

Mae paragraff 12.4 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os yw'r ymgeisydd wedi cyflawni mwy nag un trosedd traffig difrifol o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf ac na ddylid ystyried unrhyw gais pellach hyd nes bod cyfnod o 3 blynedd oleiaf wedi mynd heibio yn rhydd o gollfarn.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig yn ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi gyda pharagraff 13.1 yn diffinio 'man drosedd traffig fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o'r amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu.

Yn yr achos yma, nid oedd gan yr Is-bwyllgor reswm i wyro oddi wrth ddarpariaethau'r polisi a bod yr ymgeisydd yn addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat. Er hynny, roeddynt yn bryderus bod gan yr ymgeisydd duedd o geisio osgoi cyfrifoldeb ac o geisio esgusodi ymddygiad oedd yn drosedd. Wrth egluro rhesymau dros dorri'r terfyn cyflymder, rhaid cydnabod bod goryrru yn drosedd beth bynnag yw'r amgylchiadau - mewn geiriau eraill, goryrru yw goryrru. Pwysleisiodd yr Is-bwyllgor bod disgwyl i yrwyr sicrhau safon uchel o ymddygiad wrth yrru tacsi ac i adrodd i'r Uned Trwyddedu ar unrhyw ddigwyddiad perthnasol neu ddiweddariad, yn unol ag amodau'r drwydded.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**6. CAIS ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cydnabod y gollfarn ar ei ffurflen gais am drwydded.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn. Nododd bod y digwyddiad yn un a ddigwyddodd pan oedd oddeutu ugain oed. Mi blediodd yn euog i'r cyhuddiad ac nid oedd wedi troseddu ers hynny.

**PENDERFYNWYD**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Ebrill 1987, derbyniodd yr ymgeisydd golfan yn Llys Ynadon Bangor am Achosi Niwed Corfforol Difrifol yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 A47. Derbyniodd ddirwy o £50, Costau o £80 a Chostau ychwanegol o £20

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.2 yn nodi, bod unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fodd bynnag, o ystyried ystod y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o'r amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu'r cais gan fod yr unig gollfarn wedi'i chyflawni 37 mlynedd yn ôl sydd bell tu hwnt i'r cyfnod tair blynedd ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o gam ymddwyn ers hynny. Diolchwyd i'r ymgeisydd am fod yn onest ac agored wrth drafod cefndir ei gollfarn.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**7. CAIS ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr C**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr C am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cydnabod y gollfarn ar ei ffurflen gais am drwydded.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn. Nododd bod y digwyddiad yn un a ddigwyddodd yn ystod ysgariad anodd. Pwysleisiodd bod y gollfarn yn un di-drais (A2) ac yn ymwneud â diffyg cyfathrebu. Ategodd ei fod bob amser yn egluro'r sefyllfa gyda chyflogwyr a'i fod yn teimlo embaras o'i ymddygiad.

**PENDERFYNWYD**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Mawrth 2017, derbyniodd yr ymgeisydd golfan yn Llys Ynadon Gwynedd am ymddygiad oedd yn gyfystyr ag aflonyddu, yn groes i Ddeddf Diogelu Rhag Aflonyddu 1997 A.2(1) + A.2(2). Derbyniodd yr ymgeisydd ddedfryd o 20 wythnos wedi ei ohirio am

18 mis ynghyd a dirwy o £425, gofyniad i ymgymryd â gwaith di-dâl a gweithgaredd adsefydlu. Gosodwyd gorchymyn atal ar yr ymgeisydd hefyd.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.2 yn nodi, bod unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fodd bynnag, o ystyried ystod y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o'r amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu'r cais gan fod yr unig gollfarn wedi'i chyflawni 7 mlynedd yn ôl sydd bell tu hwnt i'r cyfnod tair blynedd ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o gam ymddwyn ers hynny. Derbyniwyd bod y drosedd wedi digwydd yn ystod cyfnod o amgylchiadau personol anodd a diolchwyd i'r ymgeisydd am fod yn onest ac agored wrth drafod cefndir ei gollfarn, gan gydnabod a derbyn cyfrifoldeb am ei ymddygiad yn llawn. Nid oedd tystiolaeth o unrhyw gollfarnau pellach ac felly roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i gael trwydded.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd

Dechreuodd y cyfarfod am 14 :15 a daeth i ben 15 :50

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 10-06-24**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** **Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes ac Edgar Owen**

**Swyddogion:** **Sïon Huws ( Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**Eraill a wahoddwyd:**

**Eitem 5: Ymgeisydd - Mr A**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Amlygodd bod y collfarnau wedi digwydd yn ystod ei gyfnod yn y fyddin ac nad oedd wedi troseddu ers hynny. Ategodd ei fod bellach yn gweithio llawn amser ac yn ceisio gwaith ar y penwythnos i gael ail incwm i brynu tŷ yn lleol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Rheolwr Trwyddedu ynglŷn â'i allu i reoli ei dymer wrth ymdrin â chwsmeriaid heriol, nododd ei fod wedi aeddfedu ers ei gyfnod yn y fyddin ac yn gallu anwybyddu unrhyw gymhelliant i ymateb yn dreisgar.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat 12 mis gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Mehefin 2017 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o Guro yn groes i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (A.39) yn Llys Ynadon Surrey. Cafodd ddirwy o £350.00, costau o £85, iawndal o £200 a Gordal i'r Dioddefwr o £35

Yn Mai 2017, cafwyd yr ymgeisydd yn euog o Ddinistrio / Difrodi Eiddo (gwerth difrod llai na £5000) yn groes i Ddeddf Difrod Troseddol 1971.

Yn Ebrill 2013 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o 3 achos o droseddau Gyrru Difrifol i gyd yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 A.5 (1)(A). Cafodd ddirwy o £300 a'i wahardd rhag gyrru am 12 mis

Yn Tachwedd 2021, derbyniodd yr ymgeisydd 6 pwynt cosb am beidio â datgelu gwybodaeth am hunaniaeth gyrrwr - bydd y pwyntiau yn dod i ben 17 Tachwedd 2024

Nid oedd collfarnau eraill i'w hystyried

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w

(h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Ystyriwyd paragraff 11.0 sydd yn cyfarch troseddau o yfed a gyrru. Ym mharagraff 11.1 fe nodir y byddai ystyriaeth ddifrifol i gollfarnau am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau. Bydd un sydd wedi ei gael yn euog o droseddau yn ymwneud ag yfed a gyrru yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Ymdrinnir yn yr un modd a chollfarn am 'wrthod neu fethu darparu sampl'

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae IN10 (defnyddio cerbyd sydd heb ei yswirio). Nodir bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod (12.10) os oes cofnod o waharddiad gyrru am gyfnod o 12 mis neu fwy, oni bai bod 18 mis wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o'i amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y collfarnau, yn unigol, yn bodloni meini prawf y polisi, fodd bynnag, gyda'r nifer collfarnau, roedd yn rhaid i'r Is-bwyllgor ystyried y patrwm o aildroseddu.

Roedd y collfarnau gyrru difrifol wedi digwydd 10 mlynedd yn ôl ac y byddai'r pwyntiau presennol oedd ar drwydded yr ymgeisydd yn dod i ben yn mis Tachwedd 2024. Er hynny, amlygwyd pryder bod collfarnau 2017 yn ymwneud â thrais, ac yn unol â gofynion y polisi, nid oedd 10 mlynedd wedi mynd heibio. Er hynny, ystyriwyd bod saith mlynedd wedi mynd heibio ers collfarnau 2017 a bod sefyllfa'r ymgeisydd wedi newid ers hynny. Roedd yr ymgeisydd bellach allan o'r fyddin ac mewn cyflogaeth llawn amser a sefydlog. Gyda'r angen i ddangos bod y math hwn o ymddygiad yn perthyn i'r gorffennol, ystyriwyd mai priodol yn yr achos yma fyddai caniatáu trwydded am flwyddyn yn unig ac i unrhyw gais adnewyddu trwydded ddod gerbron Is-bwyllgor ymhen 12mis.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat am 12 mis.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:15 a daeth i ben 12 :05

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 04-09-24**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** **Elfed Williams (Cadeirydd), Alan Jones Evans ac Edgar Wyn Owen**

**Swyddogion:** **Sïon Huws ( Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**Eraill a wahoddwyd:**

**Eitem 5: Ymgeisydd - Mr A**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Amlygodd bod y collfarnau wedi digwydd mewn un digwyddiad yn ystod cyfnod heriol a bregus yn ei fywyd ac nad oedd wedi troseddu ers hynny. Ategodd ei fod bellach yn gweithio llawn amser mewn swydd gyfrifol oedd yn cynnwys gweithio mewn sefyllfaoedd o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yn gwirfoddoli mewn ysgol leol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r Aelodau ynglŷn â'i allu i reoli ei dymer wrth ymdrin â chwsmeriaid heriol, nododd ei fod wedi aeddfedu ers ei gyfnod yn y fyddin ac yn gallu anwybyddu unrhyw gymhelliant i ymateb yn dreisgar.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat 12 mis gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn mis Hydref 2008 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o Guro (battery) yn groes i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (a.39) ac Ymysodiad gan Achosi Gwir Niwed Corfforol yn groes i Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861 (a.47)

Nid oedd collfarnau eraill i'w hystyried

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-

bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.2 yn nodi, bod unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fodd bynnag, o ystyried ystod y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o'i amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y gollfarn, yn bodloni meini prawf y polisi.

Fe ystyriodd yr Is-bwyllgor y ffaith fod 16 mlynedd wedi mynd heibio ers y troseddau ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw gollfarn neu fater perthnasol arall ers hynny. Ystyriwyd eglurhad yr ymgeisydd bod y digwyddiad yn un oedd yn hollol groes i'w gymeriad, ac wedi digwydd mewn cyfnod anodd ar ôl dychwelyd o fod yn gwasnaethu yn y lluoedd arfog. Derbyniwyd eglurhad yr ymgeisydd ei fod bellach yn gweithio fel warden safle i gwmni lleol ers saith mlynedd ac yn gorfod ymdrin â sefyllfaoedd o ymddygiad gwrth gymdeithasol fel rhan o'i ddyletswyddau dyddiol. Amlygodd ei fod yn hyderus y gallai ymdrin â'r mathau o sefyllfaoedd anodd allai godi wrth yrru tacsi.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2 :00pm a daeth i ben 2 :30pm

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 08-10-24**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** **Elfed Williams (Cadeirydd), Huw Rowlands a Gareth Williams**

**Swyddogion:** **Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**Eraill a wahoddwyd:**

**Eitem 5:**
**Ymgeisydd - Mr A**
**Cynrychiolydd yr ymgeisydd**

**Cyng. Hefin Underwood - arsylwi**

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu

- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais.

Yn unol â threfn y gwrandawiad, rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiwn i gynrychiolydd y Cyngor.

Gofynnwyd pam bod rhaid cynnal gwrandawiad a pham nad oedd gan yr Adran Amgylchedd hawliau dirprwyedig i gymeradwyo'r cais - roedd cynrychiolydd yr ymgeisydd yn awgrymu bod costau diangen yma o arian trethdalwyr.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod Cynllun Hawliau Dirprwyedig Gwynedd gyda threfniadau mewn lle, lle bod pob cais sydd ag unrhyw drosedd yn ymddangos ar DBS ymgeiswyr yn cael ei gyflwyno i Is-bwyllgor am benderfyniad. Ategodd, yn unol â Chyfansoddiad Y Cyngor nad oedd ganddi hithau na Phennaeth yr Adran Amgylchedd yr hawl i wneud penderfyniad boed y drosedd yn un hanesyddol neu beidio.

Nododd bod y drefn yn y broses o gael ei hadolygu a thrafodaethau gyda'r Adran Gyfreithiol yn cael eu cynnal i ystyried achosion lle caeir dirprwyo penderfyniad. Bydd unrhyw addasiad i'r Cyfansoddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu ac i'r Cyngor Llawn.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol os oedd gan y Rheolwr Trwyddedu hawli i atal neu ddiddymu trwydded, cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu bod ganddi hawl i wneud hynny.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol, er hynny roedd yr ymgeisydd yn awyddus i'w gynrychiolydd drafod y cai gyda'r Aelodau. Amlygodd ei gynrychiolydd bod y gollfarn wedi digwydd pan roedd yn 18 mlwydd oed, 42 mlynedd yn ôl ac nad oedd wedi troseddu ers hynny. Ategodd ei fod wedi bod yn yrrwr bws plant ysgol ar swydd honno yn un oedd yn ennyn cyfrifoldeb ac ymddiriedaeth.

Tynnwyd sylw at baragraff 6.5 o'r Polisi Trwyddedu oedd yn nodi byddai cais yn cael ei wrthod hyd nes bydd yr ymgeisydd yn rhydd o euogfarn am isafswm o 3 blynedd - pwysleisiodd eto bod cyfnod o 39 mlynedd wedi mynd heibio yma. Ategodd bod yr ymgeisydd wedi bod yn ddi-waith wrth aros am wrandawiad ac nad oedd y broses yn addas a phriodol. Gofynnodd i'r Panel ystyried ei gais i newid y broses.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat 12 mis gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar cynrychiolydd yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Mehefin 1982, cafwyd yr ymgeisydd yn euog o Ymosodiad gan Achosi Gwir Niwed Corfforol (ABH) yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 (A.47) a arweiniodd at orchymyn mechnïaeth am ddwy flynedd.

Nid oedd collfarnau eraill i'w hystyried

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o'i amgylchiadau, ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu I ganiatáu'r cais. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y gollfarn, yn bodloni meini prawf y polisi.

Fe ystyriodd yr Is-bwyllgor y ffaith fod 42 mlynedd wedi mynd heibio ers y drosedd ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw gollfarn neu fater perthnasol arall ers hynny. Ystyriwyd esboniad yr ymgeisydd am ddigwyddiad 1982 (pan oedd yn 18 mlwydd oed) a'r ffaith iddo syrthio ar ei fai a phledio yn euog. Nodwyd hefyd ei fod wedi bod yn gyflogedig dros y blynyddoedd, gyda'r 10 mlynedd diwethaf yn gyrru bws ysgol ac yn ei hanfod yn swydd o ymddiriedaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn am drefniadau trwydded bws, nodwyd y byddai trefniant gwirio addasrwydd gyrrwr hefyd yn berthnasol i'r swydd gyrrwr bws o dan broses wahanol i broses trwydded gyrrwr tacsi

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai sylwadau Cynrychiolydd yr Ymgeisydd am y drefn gwrandawiadau yn cael eu hystyried.

Dechreuodd y cyfarfod am 3 :00pm a daeth i ben 3 :30pm

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 11 TACHWEDD 2024 |
| TEITL: | DIRPRWYO HAWLIAU I BENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU TACSI |
| PWRPAS: | ADOLYGU'R CYNLLUN DIRPRWYO AC YSTYRIED OPSIYNAU AR GYFER ADDASU'R TREFNIADAU |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL – CYD-DESTUN CYFREITHIOL

1.1 Mae gan y Cyngor fel Awdurdod Trwyddedu ddyletswydd o dan y Ddeddf Cymalau Heddluoedd Trefol 1847 a'r Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i drwyddedu gyrwyr a cherbydau hurio preifat a hacni, a gweithredwyr.

1.2 Mae'r grym i ddyfarnu trwyddedau gyrwyr/gweithredwyr wedi'u cynnwys yn Adran 51, 55, a 59 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976( Y Ddeddf). Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod sawl sy'n ymgeisio am drwydded gyrrwr/gweithredwr , neu'n ymgeisio i adnewyddu trwydded o'r fath, yn unigolyn 'addas a phriodol' i ddal y drwydded honno.

1.3 Mae'r grym i atal , diddymu, neu wrthod adnewyddu trwydded gyrrwr wedi'i cynnwys yn adran 61 o'r Ddeddf . Mae'r grym yn berthnasol i sefyllfaoedd lle bo'r ymgeisydd/deilydd y drwydded wedi

- ei gael yn euog o drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd; anwedduster; neu drais
- Methiant i gydymffurfio gyda darpariaethau Deddf Cymalau Heddluoedd Trefol 1847
- Methiant i gydymffurfio a darpariaethau Rhan 2 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
- Neu unrhyw achos arall rhesymol.

1.4 Prif bwrpas trwyddedu cerbydau , gweithredwyr a gyrwyr yw diogelu'r cyhoedd; a dyma yw'r flaenoriaeth beth bynnag fo trefniadau'r Cyngor ar gyfer penderfynu os yw cais am drwydded yn cael ei ganiatáu neu beidio.

## 2. <u>Y CYFANSODDIAD A HAWLIAU DIRPRWYEDIG</u>

2.1 Mae'r Cyfansoddiad yn gosod trefn benodol o ran pa benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo i swyddogion; a pha benderfyniadau sydd yn disgyn o dan gyfrifoldebau'r Is Bwyllgor. Dywed cymal 11.3.5 o Atodiad 3 Adran 3 fod penderfyniadau trwyddedau tacsis wedi eu dirprwyo i'r Pennaeth Amgylchedd ac eithrio'r materion a restrir isod -

11.3.5 **Gweithredu pwerau'r Cyngor ym maes trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hur preifat ag eithrio'r materion canlynol sydd yn gyfrifoldeb i'r Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.**

a) Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Biwro Cofnodion Troseddol yn dangos collfarn neu rybudd heddlu.

b) Penderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat pan na fydd y cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.

c) Penderfynu ar gais am drwydded gweithredwr hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos collfarn neu rybudd heddlu.

2.2 Mae pob penderfyniad arall mewn perthynas â'r gofynion cyfreithiol uchod wedi ei dirprwyo i'r Pennaeth Amgylchedd; sydd wedi awdurdodi swyddogion penodol i weithredu'r hawliau ar ei ran.

2.3 Mae'r grym i ddiddymu, neu atal trwydded yn cael ei ymarfer yn rheolaidd gan swyddogion a awdurdodir gan y Pennaeth Amgylchedd. Pan mae unigolyn yn anhapus gyda'r penderfyniad i atal neu ddiddymu trwydded; gall apelio i Lys Ynadon oddi fewn i 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad atal/diddymu.

## 3. MATERION ERAILL I'W HYSTYRIED

3.1 Yn ogystal â'r angen i gyfeirio ceisiadau gan unigolion sydd yn dangos collfarn neu rybudd Heddlu ar eu DBS; mae amgylchiadau ehangach lle y cyfeirir ceisiadau i'r Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol am benderfyniad

3.2 Gall hyn gynnwys cyhuddiad neu wybodaeth a dderbyniwyd am ymddygiad unigolyn sydd heb arwain at gollfarn; neu lle nad yw'r achos wedi cyrraedd y llysoedd eto.

3.3 Yn unol â gofynion Polisi cyfredol y Cyngor - *Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr* - mae'r amgylchiadau canlynol hefyd yn arwain at gyfeirio unigolyn i wrandawiad o'r Is Bwyllgor am benderfyniad sef:

- Torri Deddf, Is-ddeddf neu Amod Trwydded
- Troseddau traffig difrifol neu sawl collfarn am fan droseddau traffig.

## 4 PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL – 2il o RAGFYR 2019

4.1 Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar yr 2il o Ragfyr 2019 ( gweler atodiad i'r adroddiad hwn) yn amlinellu'r trefniadau presennol, a gyda opsiynau dechreuol o ran sut i adolygu'r trefniadau presennol o ddirprwyo penderfyniadau.

4.2 Wrth drafod y drefn bresennol nodwyd fod cyflwyno adroddiad ffurfiol gydag argymhelliad yn ddull effeithiol o sicrhau fod yr Is bwyllgor yn cael arweiniad clir a gais gan gynnwys tystiolaeth berthnasol sydd yn sail i'r argymhelliad. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth ffurfiol i'r ymgeisydd (ac unrhyw bartïon eraill)

– ynglŷn a sut mae'r Swyddog wedi cyrraedd ei argymhelliad ar y cais, ac mae'r ymgeisydd yn cael cyfle i ymhelaethu ar ei gais.

4.3 Mae'r gyfundrefn ar gyfer caniatáu neu wrthod ceisiadau am drwyddedau tacsi yn cynnwys hawliau apêl, i Lys yr Ynadon. Mae penderfyniadau i wrthod caniatáu ceisiadau gan Is - Bwyllgor , neu i ddiddymu neu atal trwyddedau gan swyddogion yn cael eu gwneud er mwyn diogelu 'r cyhoedd; ond mae'n bwysig ein bod yn gallu tystiolaethu rhesymeg penderfyniad gan fod hawliau apêl yn erbyn y penderfyniadau hyn.

4.5 Credir fod sgil effeithiau'r Cynllun Dirprwyo fel ac y mae yn golygu:

- Llwyth gwaith diangen i'r Is bwyllgor oherwydd y nifer o geisiadau sydd yn rhaid eu hadrodd oherwydd bod yr ymgeisydd gyda chollfarn
- Llwyth gwaith diangen i'r Gwasanaeth Trwyddedu a'r Gwasanaeth Pwyllgorau oherwydd yr angen i baratoi adroddiadau a chyfarfodydd yr Is bwyllgor ar hap
- Oedi yn y broses o benderfynu ar geisiadau oherwydd yr angen i adrodd i'r Is bwyllgor sydd yn golygu fod ymgeiswyr yn gorfod disgwyl yn hirach am benderfyniad

4.6 Cytunodd y Pwyllgor fod angen edrych ar y trefniadau dirprwyo penderfyniadau fel bod yr Is- Bwyllgor yn parhau i allu dyfarnu penderfyniad mewn modd gwrthrychol a rhesymegol lle mae'r ceisiadau o ran ei natur yn cyfiawnhau penderfyniad gan Yr Is - Bwyllgor.

4.7 Penderfynodd y Pwyllgor i roi'r hawl i'r Gwasanaeth Cyfreithiol a 'r gwasanaeth Trwyddedu i ymchwilio ymhellach i sut y gellid adolygu'r cynllun dirprwyo i gyfarch oll o'r anfanteision y drefn bresennol fel y nodwyd; tra ar y yr un pryd yn cadw gwydnwch, tegwch a thryloywder y drefn bresennol.

4.8 Cytunwyd y bydda geiriad adolygiad o'r hawliau dirprwyedig yn eglur a phendant ac y byddai y fersiwn diwygiedig a ffafrir yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn er penderfyniad terfynol.

## 5 ADOLYGIAD PELLACH O'R HAWLIAU DIRPRWYEDIG MEWN PERTHYNAS A CHEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRRWYR. CERBYDAU A GWEITHREDWYR HURIO PREIFAT

5.1 Credir y gellir adolygu'r drefn ddirprwyo gan sicrhau parhad i wydnwch penderfyniadau swyddogion a'r Is - Bwyllgor ; ond drwy ganiatáu cyfle i'r Is - Bwyllgor ganolbwyntio ar geisiadau mwyaf cynhennus neu gymhleth.

5.2 Mae trefniadau dirprwyo penderfyniadau fel hyn yn amrywio o gyngor i gyngor. Mae rhai Awdurdodau Trwyddedu yn dirprwyo hawl i swyddog benderfynu ar unrhyw gais nad yw yn groes i bolisi. Mae rhai yn dirprwyo hawliau penderfyniad i Swyddog ; ond gyda chyfundrefn apêl i Is - Bwyllgor os nad yw ymgeisydd yn cytuno gyda phenderfyniad.

5.3 O safbwynt Cyngor Gwynedd rydym yn grediniol fod rôl bwysig gan yr Is bwyllgor o ran ystyried a phenderfynu ar geisiadau sydd yn groes i unrhyw bolisi sydd yn weithredol ar y pryd; megis y polisi presennol sydd yn rhoi arweiniad o ran penderfynu os yw unigolyn yn addas a phriodol i ddal trwydded gyrru tacsi – (*Polisi Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr ).* Mae angen pendantrwydd clir o ran diffinio'r amgylchiadau lle dylid cyfeirio cais i'r Is bwyllgor.

5.4 Cynigir felly fod yr hawliau dirprwyedig yn cael eu haddasu fel a ganlyn –

## 6 Hawliau Dirprwyedig Pennaeth Amgylchedd: adolygu cymal 11.3.5 fel a ganlyn-

6.1 Gweithredu pwerau'r Cyngor ym maes trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hur preifat ag eithrio'r materion canlynol sydd yn gyfrifoldeb i'r Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

(a) Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Biwro Cofnodion Troseddol yn dangos collfarn neu rybudd heddlu, a phan fydd y cais yn groes i bolisi'r Awdurdod .

b) Penderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat pan na fydd y cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.

c) Penderfynu ar gais am drwydded gweithredwr hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos collfarn neu rybudd heddlu , a phan fydd y cais yn groes i bolisi'r Awdurdod.

6.2 Fe fyddai newid y drefn fel yr uchod yn sicrhau fod y penderfyniad wedi ei ddirprwyo i swyddog mewn amgylchiadau lle nad yw hanes troseddol yr unigolyn, neu unrhyw fater i'w ystyried , yn groes i bolisi. Dylid nodi serch hynny bod gan y Pennaeth ddisgresiwn o dan y Cynllun Dirprwyo i gyfeirio unrhyw gais am wrandawiad Is Bwyllgor lle mae amgylchiadau yn cyfiawnhau gwneud hynny: ac ni fydd y newidiadau yn effeithio ar yr hawl hynny.

6.3 Os bydd y Pwyllgor yn cytuno i'r newidiadau, fe'u cyflwynir i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn fel rhan o adroddiad y Swyddog Monitro ar Adolygu'r Cyfansoddiad.

**ARGYMHELLIAD -**

**Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo diwygio'r drefn dirprwyo penderfyniadau i'r Is Bwyllgor yn unol a'r drefn a argymhellir yn yr adroddiad .**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **2 RHAGFYR 2019** |
| **TEITL:** | **DIRPRWYO HAWLIAU I BENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU TACSI** |
| **PWRPAS:** | **ADOLYGU'R CYNLLUN DIRPRWYO AC YSTYRIED OPSIYNAU AR GYFER ADDASU'R TREFNIADAU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

**1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL – CYD-DESTUN CYFREITHIOL**

1.1 Mae gan y Cyngor fel Awdurdod Trwyddedu ddyletswydd o dan y Ddeddf Cymalau Heddluoedd Trefol 1847 a'r Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i drwyddedu gyrwyr a cherbydau hurio preifat a hacni, a gweithredwyr.

1.2 Mae'r grym i ddyfarnu trwyddedau gyrrwyr/gweithredwyr wedi'u cynnwys yn Adran 51, 55, a 59 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976( Y Ddeddf). Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod sawl sy'n ymgeisio am drwydded gyrrwr/gweithredwr , neu'n ymgeisio i adnewyddu trwydded o'r fath, yn unigolyn 'addas a phriodol' i ddal y drwydded honno.

1.3 Mae'r grym i atal , diddymu, neu wrthod adnewyddu trwydded gyrrwr wedi'i cynnwys yn adran 61 o'r Ddeddf . Mae'r grym yn berthnasol i sefyllfaoedd lle bo'r ymgeisydd/deilydd y drwydded wedi

- ei gael yn euog o drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd; anwedduster; neu drais
- Methiant i gydymffurfio gyda darpariaethau Deddf Cymalau Heddluoedd Trefol 1847
- Methiant i gydymffurfio a darpariaethau Rhan 2 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
- Neu unrhyw achos arall rhesymol.

1.4 Prif bwrpas trwyddedu cerbydau , gweithredwyr a gyrwyr yw diogelu iechyd y cyhoedd; a dyma yw'r flaenoriaeth beth bynnag fo trefniadau'r Cyngor ar gyfer penderfynu os yw cais am drwydded yn cael ei ganiatáu neu beidio.

**2. <u>Y CYFANSODDIAD A HAWLIAU DIRPRWYEDIG</u>**

2.1 Mae'r Cyfansoddiad yn gosod trefn benodol o ran pa benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo i swyddogion; a pha benderfyniadau sydd yn disgyn o dan gyfrifoldebau'r Is Bwyllgor. Dywed cymal 11.3.5 o Atodiad 3 Adran 3 fod penderfyniadau trwyddedau tacsis wedi eu dirprwyo i'r Pennaeth Amgylchedd ac eithrio'r materion a restrir isod -

11.3.5 **Gweithredu pwerau'r Cyngor ym maes trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hur preifat ag eithrio'r materion canlynol sydd yn gyfrifoldeb i'r Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.**

a) Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Biwro Cofnodion Troseddol yn dangos collfarn neu rybudd heddlu.

b) Penderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat pan na fydd y cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.

c) Penderfynu ar gais am drwydded gweithredwr hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Gwasnaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos collfarn neu rybudd heddlu.

2.2 Mae pob penderfyniad arall mewn perthynas â'r gofynion cyfreithiol uchod wedi ei dirprwyo i'r Pennaeth Amgylchedd; sydd wedi awdurdodi swyddogion penodol i weithredu'r hawliau ar ei ran.

2.3 Mae'r grym i ddiddymu, neu atal trwydded yn cael ei ymarfer yn rheolaidd gan swyddogion a awdurdodir gan y Pennaeth Amgylchedd. Pan mae unigolyn yn anhapus gyda'r penderfyniad i atal neu ddiddymu trwydded; gall apelio i Lys Ynadon oddi fewn i 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad atal/diddymu.

## 3. MATERION ARALL I'W HYSTYRIED

3.1 Yn ogystal â'r angen i gyfeirio ceisiadau gan unigolion sydd yn dangos collfarn neu rybudd Heddlu ar eu DBS; mae amgylchiadau ehangach lle y cyfeirir ceisiadau i'r Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol am benderfyniad

3.2 Gall hyn gynnwys cyhuddiad neu wybodaeth a dderbyniwyd am ymddygiad unigolyn sydd heb arwain at gollfarn; neu lle nad yw'r achos wedi cyrraedd y llysoedd eto.

3.3 Yn unol â gofynion Polisi cyfredol y Cyngor - *Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr* - mae'r amgylchiadau canlynol hefyd yn arwain at gyfeirio unigolyn i wrandawiad o'r Is Bwyllgor am benderfyniad sef:

- Torri Deddf, Is-ddeddf neu Amod Trwydded
- Troseddau traffig difrifol neu sawl collfarn am fan droseddau traffig.

## 4 Y SEFYLLFA BRESENNOL

4.1 Ers dros flwyddyn bellach mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Is - Bwyllgor gydag argymhelliad sy'n seiliedig ar arweiniad Polisi cyfredol y Cyngor - *Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr,* a barn broffesiynnol y Swyddog. Mae'r adroddiad yn manylu'r troseddau neu faterion perthnasol eraill; ac mae'r ffurflen gais , DBS ac unrhyw wybodaeth berthnasol yn cael eu cyflwyno er ystyriaeth Yr Is - Bwyllgor. Fe ymhelaethir ar y troseddau yng ngyd-destyn cymalau perthnasol o'r polisi

. Credir fod cyflwyno adroddiad ffurfiol gydag argymhelliad yn ddull effeithiol o sicrhau fod yr Is bwyllgor yn cael arweiniad clir a gais gan gynnwys tystiolaeth berthnasol sydd yn sail i'r argymhelliad. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth ffurfiol i'r ymgeisydd (ac unrhyw bartion eraill) – ynglyn a sut mae'r Swyddog wedi cyrraedd ei argymhelliad ar y cais.

4.2 Fe roddir cyfle i bob ymgeisydd sydd yn ymddangos ger bron Yr Is - Bwyllgor i roi cefndir o ran y troseddau neu faterion perthnasol. Felly, mae adroddiad ac argymhelliad y Swyddog yn ogystal a thystiolaeth a gyflwynir gan yr ymgeisydd yn sichrau fod gan yr Is bwyllgor yr holl dystiolaeth a'r wybodaeth sydd yn angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniad.

4.3 Fe welir o'r tabl isod ceisadau a gyfeiriwyd at yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol, gyda'r argymhelliad a phenderfyniad rhwng Hydref 2018 a Medi 2019

| DYDDIAD | ARGYMHELLIAD | PENDERFYNIAD | | DYDDIAD | ARGYMHELLIAD | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 17/10/18 | Gwrthod | Caniatáu | | 20/3/19 | gwrthod | caniatáu |
| 21/11/18 | Gwrthod | Gwrthod | | 20/3/19 | gwrthod | caniatáu |
| 21/11/18 | Gwrthod | caniatáu | | 12/4/19 | caniatáu | caniatáu |
| 27/11/18 | Gwrthod | gwrthod | | 16/4/19 | gwrthod | caniatáu |
| 27/11/18 | Caniatáu | caniatáu | | 16/4/19 | gwrthod | gwrthod |
| 10/12/18 | Caniatáu | Caniatau | | 3/6/19 | caniatáu | caniatáu |
| 20/12/18 | Gwrthod | Gwrthod | | 20/6/19 | Caniatau | caniatáu |
| 28/1/19 | gwrthod | caniatau | | 01/8/19 | gwrthod | gwrthod |
| 28/1/19 | gwrthod | caniatáu | | 18/9/19 | caniatáu | caniatáu |
| 28/1/19 | gwrthod | caniatau | | 18/9/19 | caniatau | caniatáu |
| 20/3/19 | gwrthod | caniatáu | | 18/9/19 | caniatau | caniatau |

4.4 Fe gyfeiriwyd 22 cais i'r Is - Bwyllgor am benderfyniad rhwng Hydref 2018 a Medi 2019. Fe ganiatawyd 9 cais yn groes i'r argymhelliad i wrthod ar sail polisi. Fe wrthodwyd 5 cais yn unol â'r argymhelliad; ac fe gymeradwywyd 8 cais yn unol â'r argymhelliad . Lle nad oedd y troseddau yn groes i'r polisi - fe gafwyd cymeradwyaeth yn unol â'r argymhelliad bob tro.

4.5 Mae gwydnwch i benderfyniadau'r Is Bwyllgor oherwydd bod pob ymgeisydd yn derbyn gwrandawiad teg; ac yn derbyn eglurhad llawn ar lafar ac yn ysgrifenedig am

resymeg y penderfyniad gan y Cyfreithiwr. Mae cyfeiriad penodol i berthnasedd cymalau'r polisi yn y llythyr penderfyniad; ynghyd ac unrhyw faterion eraill oedd yn berthnasol i'w hystyried er mwyn penderfynu os yw'r ymgeisydd yn berson 'addas a phriodol'

4.6 Roedd yr 8 cais a gymeradwywyd yn unol a'r argymhelliad dros y flwyddyn diwethaf yn geisiadau lle roedd yn amlwg nad oedd y troseddau neu materion eraill iw hystyried - yn groes i'r polisi. Mae rhain fel arfer yn gesiadau lle nad oes collfarn diweddar; neu yn nhermau mwy nag un collfarn neu fater arall; lle mae dros 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y drosedd diwethaf. Mae ambell i enghraifft o gais sydd wedi ei gyfeirio i'r Is - Bwyllgor gyda dim ond un collfarn hanesyddol am drosedd o drais lle mae gymaint ag 20 mylynedd neu fwy wedi mynd heibio. Mae llawer o geisadau yn ddiweddar wedi eu cyfeirio oherwydd pwyntiau trwydded yrru yn unig.

4.7 Mae'r gyfundrefn ar gyfer caniatáu neu wrthod ceisiadau am drwyddedau tacsi yn cynnwys hawliau apêl, i Lys yr Ynadon. Mae penderfyniadau i wrthod caniatáu ceisiadau gan Is - Bwyllgor , neu i ddiddymu neu atal trwyddedau gan swyddogion yn cael eu gwneud er mwyn diogelu 'r cyhoedd; ond mae'n bwysig ein bod yn gallu tystiolaethu rhesymeg penderfyniad gan fod hawliau apêl yn erbyn y penderfyniadau hyn.

4.8 Credir fod sgil effeithiau'r Cynllun Dirprwyo fel ac y mae yn golygu:

- Llwyth gwaith diangen i'r Is bwyllgor oherwydd y nifer o geisiadau sydd yn rhaid eu hadrodd oherwydd bod yr ymgeisydd gyda chollfarn
- Llwyth gwaith diangen i'r Gwasanaeth Trwyddedu a'r Gwasanaeth Pwyllgorau ohewydd yr angen i baratoi adroddiadau a chyfarfodydd yr Is bwyllgor ar hap
- Oedi yn y broses o benderfynu ar geisiadau oherwydd yr angen i adrodd i'r Is bwyllgor sydd yn golygu fod ymgeiswyr yn gorfod disgwyl yn hirach am benderfyniad

4.9 Credir fod angen edrych ar y trefniadau dirprwyo penderfyniadau fel bod yr Is-Bwyllgor yn parhau i allu dyfarnu penderfyniad mewn modd gwrthrychol a rhesymegol lle mae'r ceisiadau o ran ei natur yn cyfiawnhau penderfyniad gan Yr Is - Bwyllgor. Awgrymir y dylid ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau nad yw ceisiadau lle mae un neu ddau o fan droseddau hanesyddol, yn cael eu cyfeirio at yr Is -Bwyllgor.

## 5 OPSIYNAU I'W HYSTYRIED

5.1 Credir y gellir adolygu'r drefn ddirprwyo gan sicrhau parhad i wydnwch penderfyniadau swyddogion a'r Is - Bwyllgor ; ond drwy ganiatáu cyfle i'r Is - Bwyllgor ganolbwyntio ar geisiadau mwyaf cynhennus neu gymhleth.

5.2 Mae trefniadau dirprwyo penderfyniadau fel hyn yn amrywio o gyngor i gyngor. Mae rhai Awdurdodau Trwyddedu yn dirprwyo hawl i swyddog benderfynu ar unrhyw gais nad yw yn groes i bolisi. Mae rhai yn dirprwyo hawliau penderfyniad i Swyddog ; ond gyda chyfundrefn apel i Is - Bwyllgor os nad yw ymgeisydd yn cytuno gyda phenderfyniad.

5.3 O safbwynt Cyngor Gwynedd rydym yn grediniol fod rol bwysig gan yr Is bwyllgor o ran ystyried a phenderfynu ar geisiadau am drwyddedau, ond mae'n debyg mai'r her yw diffinio'r amgylchiadau lle dylid cyfeirio cais i'r Is bwyllgor.

5.4 Cynigir opsiynau fel a ganlyn fel opsiynau dechreuol i'r Pwyllgor eu hystyried a'u trafod ac am gymeradwyaeth i'r Gwasanaeth Trwyddedu mewn ymgynghoriad gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol i edrych ar y opsiynau (neu cyfuniad ohonynt) mewn mwy o fanlyder.

5.5 **Opsiwn A** - Cadw'r drefn yn debyg i'r hyn sydd yn bodoli yn bresennol ond yn cadarnhau -

- Fod ceisiadau yn cael; eu cyfeirio at Is - Bwyllgor pan fydd troseddau neu gollfarnau boed ar adroddiad DBS neu fel arall

- Nad oes rhaid cyfeirio ceisiadau os yw'r troseddau wedi eu hystyried o'r blaen gan is-bwyllgor ( a bod y cais wedi ei ganiatáu bryd hynny).

5.6 **Opsiwn B –** Dirprwyo'r hawl i swyddogion benderfynnu caniatau ceisadau lle nad yw troseddau neu materion eraill i'w ystyried yn groes i'r polisi' a lle mae un neu ddau o hen droseddau hanesyddol neu faterion eraill, gyda'r trosedd diweddaraf wedi digwydd dros 10 mlynedd yn ol.

5.7 Fe fyddai Opsiwn B yn golygu fod ceisadau yn cael eu cyfeirio i'r Is - Bwyllgor lle mae swyddog yn argymell gwrthod ar sail fod y cais yn groes i Bolisi neu fod materion eraill i'w hystyried a thystiolaeth nad yw'r ymgeisydd yn berson ' addas a phriodol'

5.8 **Opsiwn C –** Cyfeirio unrhyw gais i'r Is - Bwyllgor lle mae amryw troseddau diweddar neu troseddau difrifol a pherthnasol neu unrhyw fater arall i'w ystyried ; a lle mae risgiau sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd petai penderfyniad i wrthod yn cael ei herio yn llwyddiannus drwy apel.

5.9 **Opsiwn D** – Cyfeirio penderfyniadau i'r Is - Bwyllgor yn unol a disgresiwn y Pennaeth Amgylchedd

## 6. ARGYMHELLIAD -

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor:

- Gefnogi'r egwyddor or adolygu'r cynllun dirprwyo cyfredol

- Ystyried yr opsiynau dechreuol a rhoi cymeradwyaeth i'r Gwasanateh Trwyddedu mewn ymgynghoriad gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol i edrych mewn mwy o fanylder ar yr opsiynau neu gyfuniad ohonynt ac adrodd yn ol i'r Pwyllgor gydag opsiynau terfynnol a'r opsiwn a ffafrir cyn diwedd Mawrth 2020.